



Y Ffordd GYWIR

Dull Gweithredu

seiliedig ar

Hawliau Plant i Addysg

yng Nghymru

Mae Dull Gweithredu

seiliedig ar Hawliau Plant

yn fframwaith egwyddorol
ac ymarferol ar gyfer
gweithio gyda phlant,
wedi'i wreiddio yng
Nghonfensiwn y
Cenhedloedd Unedig
ar Hawliau'r Plentyn

Gwireddu
Hawliau

Y Ffordd GYWIR

Cynnwys

Rhagair gan Sally Holland: Pam Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant?	3
Cyflwyniad	4
Hawliau dynol plant	5
'Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant'	7
Gwreiddio hawliau plant	7
Cydraddoldeb a pheidio â Chamwahaniaethu	9
Grymuso plant	12
Cyfranogiad	14
Atebolrwydd	16
Diwedd glo gan Sally Holland	18



Gwella
bywydau
plant

PAM DULL GWEITHREDU SEILIEDIG AR HAWLIAU PLANT YNG NGHYMURU?

Rhagair gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

Fel pencampwr plant Cymru fy uchelgais i yw Cymru lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod. Yn 2017 mae llawer iawn o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn byw bywydau diogel, hapus a gweithredol, ac yn teimlo eu bod yn cael gwrandawriad a pharch gan yr oedolion o'u cwmpas. Fodd bynnag, er gwaethaf holl ymdrechion sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant, mae llawer o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod hawliau'n cael eu gwireddu i bob plentyn yng Nghymru.

Mae fy ngwaith i'n cael ei dywys gan Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac rwy'n ymdrechu i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llawn yng Nghymru. Rwyf wedi creu'r canllaw hwn gyda chynghor arbenigol gan Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc (sy'n rhan o Brifysgolion Abertawe a Bangor) a thrwy gynnwys profiadau gwirioneddol lleoliadau addysg yng Nghymru. Mae rhai lleoliadau wedi llwyddo i ddatblygu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant gan ddefnyddio cefnogaeth arbenigwyr allanol, megis UNICEF, neu drwy weithio gyda fy swyddfa i. Mae llawer o leoliadau eraill wedi datblygu elfennau o'r dull gweithredu hwn heb gael yr arweiniad yma. Datblygwyd y ddogfen hon yn ganllaw i arweinwyr, athrawon, llywodraethwyr a gweithwyr addysg proffesiynol eraill wrth iddyn nhw ddatblygu Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant, fel bod plant a phobl ifanc ledled Cymru yn cael cyfle i gyrchu a dysgu am eu hawliau ar hyd eu haddysg.

Bydd cael y Dull Gweithredu hwn, sy'n seiliedig ar Hawliau Plant, ym myd addysg yn diogelu anghenion tymor hir plant a phobl ifanc ac yn helpu i ddatblygu unigolion iach a hyderus sy'n gallu dysgu a ffynnu. Mae rhoi'r dull gweithredu hwn ar waith hefyd yn darparu cyfleoedd ystyrlon i blant a phobl ifanc gyfranogi yn eu cymunedau fel dinasyddion moesegol, gwybodus.

“Mae Erthygl 42 yn dweud y dylen ni i gyd wybod beth yw ein hawliau. Petai pob plentyn yn gwybod beth ddylen nhw gael, efallai bydden ni'n byw mewn byd tecach.”


Plentyn, Ysgol Gynradd

“Mae [dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant] wedi rhoi llwyfan i'n plant asesu eu bywydau'n barhaus, ac mae wedi helpu o ran yr ymgysylltiad â dysgu”

Pennaeth, Ysgol Gynradd

CYFLWYNIAD

Mae Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn fframwaith cydlynus, gwleidyddol niwtral ac ymarferol ar gyfer gweithio gyda phlant, wedi'i wreiddio yn CCUHP. Mae'n ddull gweithredu cadarn sy'n gwrthsefyll newid cymdeithasol. **Mae'n golygu sicrhau bod CCUHP yn greiddiol i brofiad plentyn o addysg ac yn ganolog i gynllunio, addysgu, gwneud penderfyniadau, polisïau ac ymarfer yn yr ysgol.**



Mae polisi a deddfwriaeth plant yng Nghymru wedi'u seilio ar CCUHP. [Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011](#), [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) a [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) fel ei gilydd yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus sy'n cyfrannu at wireddu hawliau plant. Mae Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn cyd-fynd â'r dyletswyddau hyn, a bydd yn helpu lleoliadau addysg i gyflawni eu dyletswyddau statudol.

Mae lleoliadau addysg yng Nghymru yn gweithio'n galed i alluogi plant i wireddu eu hawliau, ond mewn rhai lleoliadau nid yw'r cysylltiad rhwng eu gwaith a hawliau plant yn eglur i'r staff, i'r dysgwyr nac i'r gymuned ehangach. Pan fydd ysgolion yn cyflwyno'r cysylltiad rhwng eu gwaith a hawliau'r plentyn mewn modd clir a phenodol, maent yn sefydlu fframwaith a rhesymeg clir ar gyfer eu gwaith. Mae CCUHP yn darparu sylfaen gadarn o werthoedd ar gyfer cymuned ysgol, a chydabyddir y rhain mewn cyfraith ryngwladol.

“Mae'r egwyddorion hyn [o ran hawliau plant] yn treiddio trwy holl gymuned yr ysgol. Mae hynny'n cael effaith gadarnhaol iawn ar ymddygiad y disgyblion a'u hagweddau at bobl eraill.”

Estyn, [Adroddiad Arolygu Ysgol 2012](#)


Hawliau dynol plant

“Mae Hawliau wedi rhoi iaith gyffredin i ni i gyd”

Llywodraethwr, Ysgol Gynradd

Mae hawliau dynol yn gwarantu elfennau o ryddid sylfaenol ac yn diwallu anghenion sylfaenol y ddynoliaeth gyfan, wedi'u seilio ar barch at urddas bodau dynol. Mae hawliau dynol yn rhwymo'r llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus ar bob lefel yn y Deyrnas Unedig, ac maen nhw'n darparu fframwaith moesegol cryf ar gyfer cynllunio, gwneud penderfyniadau a gweithredu.^{1,2}

Mae gan blant hawl i dderbyn eu hawliau dynol, gan gynnwys y gallu i gael mynediad i'w hawliau a'u hymarfer. Cyflwynir hawliau plant mewn cytuniadau rhyngwladol, gan gynnwys Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol (ECHR). Mae hawliau plant yn rhywbeth y dylen nhw eu cael, nid rhywbeth dewisol. **Mae plant 0-17 oed yn cael amddiffyniad arbennig o ran hawliau dynol yn CCUHP.**




Yn 1991 cytunodd y Deyrnas Unedig yn ffurfiol y byddai'n sicrhau bod pob plentyn yn y Deyrnas Unedig yn derbyn yr holl hawliau sydd wedi'u rhestru yn y confensiwn trwy gadarnhau [CCUHP](#). Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru y Confensiwn yn sail ar gyfer llunio polisi i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn 2004. Cryfhodd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ddull gweithredu seiliedig ar hawliau Llywodraeth Cymru ac adeiladu arno wrth lunio polisi ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, gan osod dyletswydd ar holl Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP wrth ymarfer unrhyw swyddogaethau Gweinidogol.

Mae CCUHP yn cydnabod bod plant mewn sefyllfa wahanol i oedolion, gydag anghenion gwahanol yn aml, a bod plant yn wynebu heriau penodol oherwydd bod plentyndod yn cynnwys cyfnodau o ddatblygiad corfforol neu emosiynol. Mae Rhan 1 o CCUHP yn cynnwys 41 o erthyglau, sy'n gwarantu set gynhwysfawr o hawliau i blant. Mae Erthygl 42, yn Rhan 2 o CCUHP yn gofyn bod y Wladwriaeth, gan gynnwys awdurdodau cyhoeddus, yn sicrhau bod CCUHP yn hysbys ar lefel eang ymhlith plant ac oedolion. Mae gweddill Rhan 2, a Rhan 3 o CCUHP, yn delio gyda chyfrifoldebau monitro ac adrodd i'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'r hawliau a nodir yn CCUHP yn fesur diogelu ychwanegol ar gyfer diogelwch a datblygiad plant, ac yn cefnogi eu gallu i wneud penderfyniadau a gweithredu'n annibynnol. Mae holl erthyglau'r confensiwn yn trafod tair prif thema:


Cyfranogiad, Darpariaeth a Diogelu.

Mae'r erthyglau **Cyfranogiad** wedi'u seilio ar y syniad o blentyn neu berson ifanc fel rhywun sy'n gwneud cyfraniad gweithredol i'r gymdeithas, fel dinesydd ar hyn o bryd, yn hytrach na rhywun sydd ond yn derbyn triniaeth dda neu ddrwg gan eraill.



Mae erthyglau Darpariaeth yn cwmpasu hawliau sylfaenol plant a phobl ifanc i oroesi a datblygu.

Mae'r rhain yn amrywio o ofal iechyd, bwyd a dŵr glân i addysg ac amgylchedd sy'n caniatáu i blant ddatblygu. Mae'r Confensiwn yn eglur mai'r lle gorau i blentyn fel arfer yw gyda'r teulu, a bod dyletswydd ar y Llywodraeth i gefnogi a chynorthwyo rhieni, ond i ddarparu gofal arbennig pan fydd plant yn methu byw gyda'u rhieni.



Mae erthyglau **Diogelu** yn delio gydag ecsbloetio plant a phobl ifanc yn y gwaith; cam-drin corfforol, rhywiol a seicolegol; camwahaniaethu a chamdriniaethau eraill y mae llawer yn dal i'w dioddef, gan gynnwys yn y Deyrnas Unedig. O dan y Confensiwn mae dyletswydd ar Lywodraethau i amddiffyn plant a phobl ifanc a'u helpu i ailsefydlu, os bydd angen.

Pwyllgor o arbenigwyr sy'n gyfrifol am fonitro gweithrediad CCUHP yw'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn³. Mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiynau rheolaidd i adolygu ac asesu'r cynnydd tuag at wireddu hawliau plant gan lywodraethau ar draws y byd, gan gynnwys y Deyrnas Unedig. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gwneud awgrymiadau i helpu llywodraethau i wireddu hawliau plant yn well. Cyflwynir y rhain mewn dogfennau o'r enw Sylwadau Cyffredinol⁴.

'DULL GWEITHREDU SEILIEDIG AR HAWLIAU PLANT'

Datblygwyd y model a gyflwynir yn y canllaw hwn ar gyfer lleoliadau addysg yng Nghymru, ac mae'n berthnasol ar draws y sector addysg, i'r ddarpariaeth statudol ac anstatudol. Mae ein hastudiaethau achos yn darlunio ymarfer y gellir ei roi ar waith o'r Blynyddoedd Cynnar hyd at addysg ôl-16 ac yn adlewyrchu ymarfer mewn lleoliadau prif ffrwd ac eraill. Bydd gan lawer o leoliadau eisoes weithdrefnau sy'n cyd-fynd â **Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant:** bydd mynd ati'n aml ifabwysiadu'r egwyddorion a'r arferion isod yn cydweddu â'r hyn sydd eisoes yn gweithio neu'n ei wella.

Egwyddorion Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant⁵ yw:

- **Gwreiddio hawliau plant**
- **Cydraddoldeb a phheidio â chamwahaniaethu**
- **Grymuso plant**
- **Cyfranogiad**
- **Atebolrwydd**

Gwarantu
elfennau o ryddid
ac anghenion
sylfaenol

Gwreiddio hawliau plant

Dylai hawliau plant fod yn ganolog i gynllunio a darparu ar lefel ysgol gyfan. Mae hyn yn gofyn bod holl staff yr ysgol, gan gynnwys y staff cyswllt a'r staff cymorth, yn deall CCUHP fel fframwaith ar gyfer gwaith yr ysgol. Yn yr un modd, mae angen i bob llywodraethwr fod yn ymwybodol o egwyddorion a chynnwys CCUHP. Dylid adolygu polisiau ysgol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag egwyddorion CCUHP. Dylai fod cydlynw ar draws gwahanol adrannau'r ysgol, a hefyd gyda gwasanaethau allanol, i sicrhau bod egwyddorion ac ymarfer Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn cael eu cymhwyso. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod lles pennaf y plentyn yn brif ystyriaeth ym mhob penderfyniad sy'n effeithio ar y plentyn (fel mae Erthygl 3 o CCUHP yn gwarantu). Dylai fod yn glir ac yn dryloyw ble mae hawliau plant wedi cael eu cymryd i ystyriaeth.

Er mwyn rhoi'r egwyddor hon ar waith dylai lleoliadau addysg geisio:

- **Cyfeirio at CCUHP ym mhob polisi** a dogfennau eraill sy'n nodi gweledigaeth a gwerthoedd.
- **Sicrhau bod y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni** yn ymwybodol o'r ymrwymiad hwn ac yn gyfarwydd â CCUHP.
- **Sicrhau bod canlyniadau dysgu** am CCUHP a hawliau plant yn cael eu cynnwys yn y dysgu a'r addysgu.
- **Blaenoriaethu hyfforddiant** ar hawliau plant ar gyfer holl gymuned yr ysgol.
- **Nodi unigolion allweddol a/neu dîm sy'n gyfrifol** am weithredu fel hyrwyddwyr hawliau plant, sydd ar gael i gefnogi staff eraill i ddatblygu eu hymarfer.
- **Cynnal archwiliad cychwynnol ac yna un rheolaidd** o bob polisi i asesu cydymffurfiaeth â gwerthoedd CCUHP.
- **Cynnal gwerthusiad cychwynnol a pharhaus** o lefelau gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch hawliau plant ymhlith staff, llywodraethwyr, disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol.
- **Dylai fod ymrwymiad clir i sicrhau** bod adnoddau digonol, o ran pobl ac arian, yn cael eu dyrannu i gefnogi'r sefydliad i roi hawliau plant ar waith.

Astudiaeth Achos 1:

Mabwysiadodd ysgol gynradd yng Nghymru ddull gweithredu ysgol gyfan o wreiddio hawliau plant. Yn yr ysgol hon mae'r holl staff, llywodraethwyr a disgyblion yn deall mai egwyddorion CCUHP sy'n eu tywys, ac maent wedi rhoi gwybod i rieni a gofalmwyr yn gyson am y Confensiwn trwy ei gynnwys mewn newyddleni, llythyron, gwaith cartref a pholisïau ysgol. Mae disgyblion wedi arwain ymgynghoriadau gyda rhieni a gofalmwyr i nodi beth maen nhw'n ei wybod am hawliau plant, a byddan nhw'n arwain sesiynau i ddatblygu dealltwriaeth ymhellach. Mae Pennaeth yr Ysgol yn datgan bod

“egwyddorion [CCUHP] wedi'u gwreiddio ar draws ein holl gwricwlwm, polisïau ac arferion. Mae wedi darparu fframwaith i ni sy'n wir yn rhoi ystyr a dealltwriaeth i bopeth a wnawn.”

Pennaeth, Ysgol Gynradd

Ymrwymiad
Cymru i
blant

Astudiaeth achos 2

Mewn ysgol gynradd arall, sydd hefyd yn ymdrin â hyn ar lefel ysgol gyfan, mae siarter wedi disodli rheolau'r dosbarth ym mhob rhan o'r ysgol. Mae pob siarter wedi'i seilio ar CCUHP ac maen nhw'n cyfeirio'n benodol at rai o'r erthyglau. Mae plant yn deall bod eu hawliau'n ddiamod ac mai oedolion sydd â dyletswydd o ran eu hawliau, **“oedolion sy'n gwneud yn siwr ein bod ni'n cael ein hawliau”**. Mae plant hefyd yn deall, er nad ydyn nhw eu hunain yn gyfrifol am sicrhau bod plant eraill yn derbyn eu hawliau, bod eu gweithredoedd a'u hymddygiad nhw'n gallu helpu i gefnogi plant eraill i fwynhau eu hawliau, er enghraifft, gallan nhw gefnogi hawliau eu cyfoedion trwy sicrhau eu bod nhw'n gwrando ar ei gilydd er mwyn i bawb fedru rhannu syniadau yn y dosbarth. Mae disgyblion yn cyfeirio'n benodol at erthyglau sy'n ymwneud

â'u rolau yn yr ysgol, er enghraifft, esboniodd disgybl oedd wedi cael ei hyfforddi i fod yn gyfryngwr-cyfoedion fod **“gan bob plentyn hawl i gael gwrandawriad a theimlo'n ddiogel”**. Mae disgyblion hefyd yn deall bod eu gweithredoedd yn gallu cael effaith y tu hwnt i'r ysgol ac yn gweld prosiectau dinasyddiaeth fyd-eang trwy lens cydraddoldeb cyffredinol, fel y dywed un plentyn, **“Fe ges i fy ngeni â hawliau, ac mae hynny'n wir am bob plentyn yn y byd”**.

“Mae rhaid i'r ysgol gyfan ddelio gyda hyn, all e ddim bod yn un athro mewn dosbarth yn unig. Mae angen i bob aelod o staff ddeall mai dyma'r egwyddorion sy'n eich tywys”

Dirprwy Bennaeth, Ysgol Gynradd



Cydraddoldeb a pheidio â Chamwahaniaethu

Mae cydraddoldeb yn golygu sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i wneud yn fawr o'u doniau a datblygu hyd eithaf eu potensial, ac nad oes rhaid i unrhyw blentyn ddioddef cyfleoedd gwael mewn bywyd oherwydd camwahaniaethu. Mae llawer o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn wynebu camwahaniaethu mewn lleoliadau addysg. Weithiau bydd plant yn wynebu camwahaniaethu oherwydd eu hunaniaeth, er enghraifft, gall plant a phobl ifanc gael eu bwlio oherwydd eu hunaniaeth rywol neu oherwydd eu bod yn aelodau o gymuned ethnig leiafrifol. Mewn astudiaeth ar fwlio, bu Comisiynydd Plant Cymru yn ymgynghori â mwy na thair mil o blant a phobl ifanc yng Nghymru, a dangosodd hynny fod eithrio a bwlio hefyd yn ymatebion i nodweddion sydd ddim wedi'u hamddiffyn o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, er enghraifft bwlio oherwydd tlodi, dillad neu sut olwg sydd ar rywun, fel y dangosir ar y dudalen ganlynol.



Ffigur 1: Delwedd a luniwyd gan blentyn, a gasglwyd fel rhan o ymgynghoriad Comisiynydd Plant Cymru ynghylch profiadau plant o fwlio, 2016. Gofynnwyd i'r plant dynnu llun plentyn oedd yn cael ei fwlio.

Dangosodd yr ymgynghoriad fod effeithiau'r profiad hwn yn gallu bod yn ddwys, gyda phlant a phobl ifanc yn amlygu colli addysg fel ymateb cyffredin i fwlio. Mae peidio â dioddef camwahaniaethu yn hawl o dan CCUHP (Erthygl 2) ac mae hybu cydraddoldeb yn golygu cymryd camau i ddileu camwahaniaethu. Ym myd addysg mae hynny'n golygu gweithio gyda'r holl staff, dysgwyr a'r gymuned ehangach i sicrhau nad yw plant yn wynebu camwahaniaethu. Mae hawliau plant yn darparu iaith glir i blant fedru disgrifio a fframio eu perthynas â'i gilydd.

Er mwyn rhoi'r egwyddor hon ar waith, dylai ysgolion geisio:

- **Cynnwys ymrwymiad clir i hybu cydraddoldeb** a mynd i'r afael â chamwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol yn erbyn grwpiau penodol o blant ym mhob polisi arwyddocaol, a rhannu hynny fel neges glir a chyson gyda holl gymuned yr ysgol.
- **Dathlu gwahanol nodweddion y gymuned,** a chefnogi plant a phobl ifanc i ddathlu gwahaniaethau a theimlo'n gadarnhaol yn eu cylch.
- **Galluogi pob plentyn, person ifanc ac aelod o staff** i archwilio ac ymfalchïo yn eu hunaniaeth bersonol unigryw eu hunain.

- **Sicrhau bod goblygiadau camwahaniaethu** yn cael eu deall yn eang gan staff a'r plant eu hunain.
- **Casglu data perthnasol**, gan gynnwys data a ddadelfennwyd, fel bod modd adnabod camwahaniaethu neu anghydraddoldebau ac adnabod plant a allai fod yn dioddef camwahaniaethu.
- **Datblygu blaenoriaethau a rhaglenni gweithredu priodol** i leihau camwahaniaethu yn erbyn grwpiau a eithriwyd, sydd ar gyrion cymdeithas, o dan anfantais ac yn agored i niwed, a hybu cydraddoldeb i'r grwpiau hyn.

- **Ei gwneud yn ofynnol bod gwasanaethau a phrofiadau allanol**, er enghraifft, ymweliadau a theithiau ysgol, yn cael eu darparu mewn ffyrdd sydd ddim yn camwahaniaethu yn erbyn plant neu grwpiau o blant.
- **Pan fydd plant neu bobl ifanc yn dychwelyd** i'r ysgol ar ôl absenoldeb, gwirio fel mater o drefn a ydynt yn profi bwlio neu anawsterau cymdeithasol sy'n peri eu bod yn colli addysg.



Astudiaeth Achos 1

Mewn ysgol gynradd bu'r disgyblion yn trafod pwnc oedd yn ymwneud â harddwch, a seiliwyd ar ddull gweithredu ysgol gyfan o ymdrin â hawliau, gyda chysylltiad uniongyrchol ag Erthygl 2 (cydraddoldeb). Gan ddefnyddio dulliau creadigol a ddewiswyd ganddynt eu hunain, bu'r disgyblion yn archwilio ystyr harddwch iddyn nhw ac yn cyflwyno eu 'prosiect harddwch' eu hunain i'r dosbarth i rannu eu barn ynghylch beth oedd yn hardd. Fe wnaeth y prosiect drawsnewid barn rhai disgyblion am harddwch, fel mae un ferch o Flwyddyn Pump yn esbonio:

“Roeddwn i’n arfer meddwl mai colur ac ewinedd oedd harddwch, ond pan wnes i fy nghyflwyniad ar harddwch... fe fues i’n tynnu ffotograffau o bawb yn y dosbarth... roeddwn i’n meddwl ei fod yn golygu cyfeillgarwch... fe newidiodd fy marn am harddwch.”

Astudiaeth Achos 2

Cafodd holl staff ysgol uwchradd (athrawon, staff cymorth a staff cyswllt) hyfforddiant mewn dulliau adferol o ymdrin â gwrthdaro rhwng cyfoedion. Mae hyn yng nghyd-destun ymrwymiad clir i hawliau plant a nodwyd yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae siarter ysgol gyfan sy'n gysylltiedig â hawliau yn cael ei harddangos o gwmpas yr ysgol, ac mae rhaglen ymddygiad newydd wedi cael ei datblygu fel menter ar y cyd â phobl ifanc, a fu'n allweddol wrth ei ddatblygu a'i werthuso, gan ddarparu enghraifft o ymrwymiad yr ysgol i Erthygl 12 (yr hawl i fynegi barn). Mae'r rhaglen yn pwysleisio cydnabod ymddygiad cadarnhaol, ac mae un person ifanc yn esbonio bod **'y system yn eich annog i barchu hawliau pobl eraill'**.

Ers i'r rhaglen newydd fod ar waith mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol wedi gostwng yn ddramatig. Ochr yn ochr â'r dulliau gweithredu adferol, mae'r staff addysgu wedi mynd ati'n drylwyr i fapio'r sylw a roddir i CCUHP ar draws yr holl ddysgu a chynllunio gan athrawon, fel bod modd i ddealltwriaeth o hawliau a'u perthynas â gwneud penderfyniadau mewn gwahanol gyd-destunau gael ei ddatblygu'n barhaus a'i archwilio.

“gyda hawliau rydyn ni wedi datblygu mwy o empathi tuag at eraill, yn enwedig yr hawl i ddysgu”

Disgybl, Ysgol Uwchradd

“Pan fydd eich ysgol yn ymrwymo i hawliau, nid ychwanegiad yw hynny. Mae angen i chi fynd yn ôl at yr hyn rydych chi'n ceisio ei wneud, at werthoedd eich ysgol, ac yna mynd â hynny trwy bopeth... mae'n trawsffurfio'r perthnasoedd yn yr ysgol”

Dirprwy Bennaeth, Ysgol Gynradd

“Fues i erioed mewn ysgol oedd yn fwy croesawgar... mae ymddygiad [X] wedi gwella ac mae wedi setlo yma, mae hawliau'n bendant wedi helpu gyda hyn.”

Rhiant, Lleoliad Addysg Arbennig



Grymuso plant

Dylai hawliau dynol rymuso plant. Mae grymuso yn golygu gwella galluedd plant fel unigolion, fel eu bod yn medru manteisio'n well ar hawliau, ac ymgysylltu â'r unigolion a'r sefydliadau hynny sy'n effeithio ar eu bywydau, dylanwadu arnynt a'u galw i gyfrif. Dylai plant fedru gwneud dewisiadau ac effeithio ar ganlyniadau drostynt eu hunain. Dylai plant dderbyn gwybodaeth i gynyddu eu dealltwriaeth o hawliau dynol, a mynediad at adnoddau i'w galluogi i ddefnyddio eu hawliau yn eu bywydau pob dydd. Mae grymuso yn newid y berthynas rhwng plant ac oedolion mewn lleoliadau addysg. Mae'n golygu bod oedolion yn trosglwyddo'r penderfyniadau i'r plant, neu'n eu rhannu gyda nhw. Mae'r egwyddor hon yr un mor berthnasol i blant iau, a dylid ei gweld fel cyfraniad pwysig at ddatblygiad y plentyn (sy'n cael ei warantu o dan Erthygl 6 o CCUHP).

Er mwyn rhoi'r egwyddor hon ar waith dylai lleoliadau addysg geisio:

- **Rhoi cyfleoedd a sgiliau i blant fedru ymgysylltu** â pholisiau a phrosesau'r ysgol a dylanwadu arnynt. Cynnig hyfforddiant a gwybodaeth sy'n hygyrch i blant a sefydlu canllawiau clir ar gyfer sut bydd plant yn dylanwadu ar benderfyniadau.
- **Darparu data a gasglwyd am blant iddynt mewn** modd priodol, er mwyn iddyn nhw fedru rhannu'r penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a strategaethau'r ysgol.
- **Rhoi cyfleoedd i blant weithredu ar y cyd** i ddatblygu syniadau a cynigion, i gymryd camau, ac i ddylanwadu ar benderfyniadau. Ystyried sut gall pob plentyn fod yn rhan o hyn, er enghraifft, sicrhau bod systemau i ofalu bod aelodau'r cyngor ysgol yn wir yn gallu cynrychioli barn plant eraill, er enghraifft trwy alluogi dosbarthiadau i drafod eitemau sydd ar yr agenda cyn y cyfarfodydd.
- **Mynd ati'n rhagweithiol i nodi cyfleoedd i blant** wneud penderfyniadau yn ôl eu hoed a'u haeddfedrwydd, gan gynnwys cyfleoedd i wneud dewisiadau pwysig sy'n trawsnewid eu bywydau, a rhoi gwybod i blant am y cyfleoedd hyn.
- **Darparu gwybodaeth ac addysg hygyrch i blant** er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'u hawliau dynol. Mae llawer o adnoddau ar gael i gefnogi hyn: www.uncrcletsgetitright.co.uk
- **Darparu gwybodaeth hygyrch i blant ynghylch** gwasanaethau lleol a chenedlaethol a'r Comisiynydd Plant. Bydd ein cynlluniau Llysgenhadon yn cefnogi hyn: www.complantcymru.org.uk/ein-cynlluniau

Astudiaeth Achos 1:

Mae ysgol gynradd wedi datblygu polisi asesu gyda'r disgyblion, gan ddefnyddio sylwadau'r disgyblion fel datganiadau adborth y byddent yn eu derbyn. Wedyn bu'r disgyblion yn gwerthuso'r polisi asesu pan gafodd ei roi ar waith. Yn yr un ysgol, mae llais y disgybl yn ymestyn yn ehangach na'r pwyllgorau etholedig, gan fod aelodau'r pwyllgor yn mynd ati i geisio barn a safbwyntiau'r holl ddisgyblion trwy drafodaethau dosbarth a sicrhau bod yr eitemau ar yr agenda, y cofnodion a'r adborth ar gael yn hwylus i ddisgyblion eraill. Anogir y disgyblion hefyd i fynegi eu hunain nid yn unig trwy gynghorau etholedig ond mewn gwersi a thrwy ddefnyddio amser cylch.

Gwybodaeth
a
Chyfleoedd

Astudiaeth Achos 2:

Yn ddiweddar mae Senedd Disgyblion wedi cael ei chyflwyno mewn ysgol gynradd, gan adlewyrchu strwythur Llywodraeth Cymru, gydag Aelodau'r Cabinet yn derbyn cyfrifoldeb penodol am wahanol feysydd blaenoriaeth yn yr ysgol. Mae'r senedd wedi cydweithio'n agos â'r Pennaeth i adolygu cynllun datblygu'r ysgol a phennu blaenoriaethau ysgol gyfan. Mae hefyd wedi cyflwyno gwobr cyfranogiad disgyblion i ddathlu cyfraniadau pobl eraill i fywyd yr ysgol.

“Galla i siarad ag oedolion ac esbonio... beth yw ein hawliau a beth hoffon ni newid.”

Disgybl Blwyddyn 6


“Mae wedi cael effaith aruthrol ar eu hyder a'u hymdeimlad o falchder. Maen nhw wedi gwneud newidiadau ac maen nhw'n gwybod bod ganddyn nhw lais. Mae wedi rhoi ymdeimlad gwirioneddol o gyfrifoldeb tuag at ddisgyblion iau iddyn nhw”

Athro, Ysgol Gynradd.



Cyfranogiad

Ystyr cyfranogiad yw gwrando ar blant a rhoi sylw ystyrlon i'w barn. Dylai pob plentyn gael cefnogaeth i fynegi barn yn rhydd; dylen nhw gael eu clywed a chael gwrandawriad. Dylai eu barn gael ei chymryd o ddifri wrth wneud penderfyniadau neu gymryd camau sy'n cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar eu bywydau (fel sy'n cael ei warantu o dan Erthygl 12 o CCUHP). Gall cyfranogiad ddigwydd mewn gwahanol ffurfiau, sy'n briodol ar gyfer gwahanol amgylchiadau. Dylai plant gael eu cefnogi i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n cyfrannu at eu bywydau, yn dylanwadu ar ffurf yr ysgol a'r cymunedau lle maen nhw'n byw a'r gymdeithas ehangach. Bydd angen rhoi ystyriaeth i farn plant a rhoi pwys ar eu safbwynt ar sail eu hoed a'u haeddfedrwydd, ond nid yw oed ifanc nac anaeddfedrwydd cymharol yn rheswm dros ddiystyru barn plant na rhoi llai o sylw iddyn nhw mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Dylai plant dderbyn gwybodaeth lawn a chael cyfleoedd i fod yn rhan o benderfyniadau. Dylai fod yn eglur sut mae plant wedi dylanwadu ar benderfyniadau a sut mae eu barn wedi derbyn sylw, gyda'r blant a fu'n rhan o'r broses yn derbyn adborth bob tro. Ni ddylai cyfranogiad gael ei ystyried yn ddiben ynddo'i hun, ond yn hytrach fel proses ddiogel, sy'n galluogi ac yn cynnwys, ac sy'n cefnogi deialog rhwng plant a gweithwyr proffesiynol.



Er mwyn rhoi'r egwyddor hon ar waith dylai lleoliadau addysg geisio:

- **Cydnabod bod gwahanol lefelau o gyfranogiad,** Gall model cyfranogiad helpu i egluro lefel y berchnogaeth a fydd gan bobl ifanc ar bob proses.
- **Cynnwys ymrwymiad clir** i gyfranogiad plant yn holl bolisiâu pwysig yr ysgol.
- **Mabwysiadu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.**
- **Datblygu targedau a rhaglenni gweithredu i gynyddu cyfranogiad,** yn arbennig ymhlith plant a phobl ifanc a fyddai fel arall yn cael eu heithrio/eu gwrthio i'r cyrion, neu o dan anfantais.
- **Cynnwys plant yn uniongyrchol wrth ddylunio,** monitro a gwerthuso dysgu ac addysgu. Gall hyn fod mor syml â gofyn i ddisgyblion roi adborth ar ôl gwrs, ond gellir ei ddatblygu'n broses barhaus sy'n annog disgyblion i fyfyrion ar eu dysgu a'u datblygiad cymdeithasol er mwyn helpu i lywio sut gall athrawon eu cefnogi orau.
- **Cynnwys plant** wrth wirio cyllidebau.
- **Creu dewis ynghylch dysgu.**
- **Galluogi llais y disgybl** yn y dosbarth trwy addysgeg gyfranogol.
- **Cynnwys plant wrth** recriwtio staff a llywodraethwyr.
- **Darparu adborth i'r plant a'r staff ynghylch** canlyniadau cynnwys y plant, gan amlygu unrhyw newidiadau a gyflawnwyd trwy eu cyfranogiad.
- **Sicrhau bod adnoddau** (pobl/arian) yn cael eu neilltuo i gefnogi cyfranogiad.

Astudiaeth Achos 1

Mae ysgol gynradd wedi galluogi'r holl staff addysgu i dderbyn adborth adeiladol ac argymhellion gan blant ynghylch eu haddysgu trwy gynllun o'r enw *Fe Ddwedsoch Chi... Fe Wnes i*. Mae hyn wedi cael ei arddangos ym mhob rhan o'r ysgol, ac mae'r disgyblion wedi cysylltu hynny'n uniongyrchol â gweithredu Erthygl 12 yn eu hysgol.

Cefnogi
a
Chynnwys

Astudiaeth Achos 2:

Mae ysgol ar gyfer disgyblion sydd ag amrywiaeth eang o anghenion arbennig wedi grymuso pob disgybl i gyflawni rôl weithredol yn eu hysgol a'r gymuned ehangach. Fel y dywedodd y Pennaeth: "rydyn ni'n gweithio oddi mewn i egwyddorion tywys CCUHP ym mhopeth a wnawn". Trwy ymgynghori â'r ysgol gyfan a gweithio gyda chyngor yr ysgol, bu'r disgyblion yn cyfrannu eu barn ar gyfer Cynllun Datblygu Ysgol oedd yn rhoi sylw i anghenion y disgyblion, mewn cysylltiad â chwestiynau allweddol Estyn. Gwahoddir y staff yn flynyddol i lofnodi eu bod yn cefnogi'r datblygiad ysgol gyfan hwn, sy'n cynnwys eu cyfrifoldeb fel deiliaid dyletswydd i hyrwyddo a chynnal hawliau plant. Mae Erthygl 12 yn ganolog i fywyd yr ysgol, ac mae'r disgyblion yn cyfranogi'n ystyrlon yn natblygiad polisiau, er enghraifft, mae'r disgyblion wedi creu eu fersiwn eu hunain o'r polisi Diogelu, gan gynnwys symbolau a ffotograffau. Trafodwyd targedau

dysgu unigol mewn cydweithrediad â disgyblion, gyda chysylltiad penodol ag Erthygl 29, a lle roedd hynny'n bosib, mae'r disgyblion wedi cynnal eu cyfarfodydd adolygu blynyddol eu hunain. Sylw un o lywodraethwyr yr ysgol oedd bod

"Disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn saff yma, ac yn gwybod eu bod nhw'n cael gwrandawriad."

Llywodraethwr Ysgol

"Mae llais y myfyrwyr yn rhan o bopeth a wnawn. Eu hysgol nhw yw hon, maen nhw'n ei pharchu llawer mwy oherwydd eu bod yn berchen arni."

Athro, Ysgol Uwchradd.




Atebolrwydd

Mae gan yr holl staff mewn lleoliadau addysg gyfrifoldebau ac maent yn gwneud penderfyniadau ac yn cymryd camau sy'n effeithio ar blant. Dylai plant derbyn gwybodaeth a chael mynediad i weithdrefnau sy'n eu galluogi i gwestiynu a herio penderfyniadau a wnaed mewn lleoliadau addysg. Mae atebolrwydd yn galw am fonitro safonau hawliau plant yn effeithiol, yn ogystal â chael hyd i atebion effeithiol os methir â chyrraedd y safonau hyn. Er mwyn i hyn fod yn effeithiol, mae angen i leoliadau addysg fod yn dryloyw a chynnig rhesymau dros eu penderfyniadau a'u camau gweithredu. Lle bo'n bosibl, dylai'r penderfyniadau a'r camau fod wedi'u selio ar hawliau plant. I sicrhau unrhyw hawl, rhaid i blant wybod y dylen nhw fod yn ei derbyn a gallu mynd ati i'w mynnu'n weithredol, gan gynnwys cyflwyno cwyn neu herio penderfyniadau a chamau gweithredu. Ystyr atebolrwydd yw galw llunwyr penderfyniadau igyfrif, ac mae hynny'n golygu bod angen gwybodaeth a data ynghylch perfformiad yn erbyn safonau hawliau plant.

Er mwyn rhoi'r egwyddor hon ar waith dylai lleoliadau addysg geisio:

- **Cynnwys ymrwymiad clir i atebolrwydd** ym mhob datganiad polisi pwysig a dogfennau eraill sy'n cyflwyno eu gweledigaeth neu eu hamcanion allweddol.
- **Sicrhau bod y staff a'r llywodraethwyr** yn deall eu cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau i blant, gan gynnwys trwy nodi hynny'n benodol mewn disgrifiadau swyddi a pholisïau sy'n rheoli ymddygiad staff.



- **Sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn cael y neges eu bod yn gyfrifol am hawliau pobl eraill, na bod modd dileu eu hawliau hwythau. Mae hawliau plant yn anaralladwy (allan nhw ddim cael eu cymryd i ffwrdd) a dyletswydd oedolion yw cynnal yr hawliau hynny. O wybod hyn, gall plant a phobl ifanc gael eu hannog i gefnogi a pharchu hawliau pobl eraill, a gallan nhw ddeall bod eu gweithredoedd yn gallu cael effaith ar hawliau pobl eraill. Gall plant archwilio hefyd sut maen nhw'n cydbwysu eu hawliau eu hunain â hawliau pobl eraill yn eu lleoliad ysgol neu eu cymuned.**

- **Dylai goruchwyllo a rheoli perfformiad** staff gynnwys cyfrifoldeb unigol am hawliau plant, gan gynnwys trwy ddefnyddio dangosyddion perfformiad unigol fel sy'n briodol.
- **Monitro hawliau dynol plant yn gyson** yn erbyn safonau hawliau plant. Dylai hyn gynnwys gwneud plant yn rhan o ddatblygu dangosyddion hawliau plant perthnasol (gan ddefnyddio erthyglau allweddol yn fan cychwyn), cynnwys plant yn y gwaith monitro, a sicrhau bod eich canfyddiadau ar gael i'r plant.
- **Galluogi plant i roi adborth** a gwerthusiad adeiladol ar y dysgu a'r addysgu.
- **Darparu gwybodaeth hygyrch ynghylch** y prosesau ar gyfer cyflwyno cwynion am y lleoliad neu staff unigol a gwybodaeth hwylus ynghylch sut mae cael mynediad i gyngor, megis gwasanaethau ymgynghorol neu gyngor cyfreithiol proffesiynol.

Astudiaeth Achos 1

Mae ysgol uwchradd yng Nghymru wedi rhoi hyfforddiant llywodraethwyr cyswllt i'r disgyblion ac mae'r disgyblion yn mynychu cyfarfodydd y Corff Llywodraethu i gynrychioli cyngor yr ysgol, ac yna'n adrodd yn ôl i gyngor yr ysgol, gan ddarparu dolen gyswllt sy'n golygu bod y ddau gorff yn gallu cydweithio i gyflawni newidiadau i'r ysgol. Yn yr un modd, mae disgyblion mewn ysgol gynradd hefyd yn mynychu rhannau o gyfarfodydd y Corff Llywodraethu yn rheolaidd, ac mae'r cyfarfodydd hynny'n cynnwys effeithiolrwydd llais y disgybl fel eitem sefydlog. Yn y ddwy ysgol mae'r disgyblion yn ymwneud â recriwtio staff ac maen nhw wedi cael eu hyfforddi i gyfweled ar gyfer penodiadau staff.

“Rydyn ni'n gwneud pethau gyda phlant, nid ar ran plant”

Athro, Ysgol Gynradd

DIWEDDGLO

gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

Mae buddsoddi yn hawliau dynol plant yn creu manteision gwirioneddol ar gyfer lleoliadau addysg, gan gynnwys galluogi mwy o blant a phobl ifanc i gyfranogi mewn penderfyniadau a chymryd perchnogaeth arnynt, sy'n sicrhau ffocws gwirioneddol ar anghenion penodol plant a phobl ifanc, y gall eu lleisiau fynd ar goll neu gael eu distewi, a chreu amgylchedd addysgol sy'n atebol i'r holl ddysgwyr.

Mae hawliau dynol plant yn cael eu cyflawni ar lefel ryngwladol, rhanbarthol a gwladol. Yn aml gwelir CCUHP fel cysyniad haniaethol. Bwriad y canllaw hwn yw dangos yn fyw sut gall lleoliadau addysg yng Nghymru gael effaith gadarnhaol wirioneddol ar gyflawni Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant mewn cymunedau ledled Cymru, dull gweithredu a fydd yn cael effaith ystyrlon ar sut mae Cymru'n ymateb i anghenion tymor hir ei phlant ac yn eu diogelu.

Pam mae Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn bwysig yng Nghymru?

- **Mabwysiadwyd y CCUHP** gan Lywodraeth Cymru yn 2004 yn sail ar gyfer yr holl bolisiau y byddai'n eu llunio ar gyfer plant a phobl ifanc.
- **Mae CCUHP yn ddogfen allweddol** sy'n darparu sylfaen ar gyfer fframwaith a gwerthoedd lleoliadau addysg ac er mwyn diogelu anghenion tymor hir plant a phobl ifanc.
- **Mae plant sy'n profi eu hawliau yn teimlo** eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu lleoliad addysg ac yn fwy tebygol o fod yn unigolion iach a hyderus sy'n gallu dysgu a ffynnu.



- **Mae gan bob plentyn hawl i gael addysg**, ac mae gan bob plentyn hawl i gael addysg sy'n hyrwyddo eu hawliau ac yn eu helpu i ddatblygu eu sgiliau a'u doniau i'r eithaf. Serch hynny, nid yw llawer o blant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu huchelgeisiau a'u galluoedd, a gallant wynebu camwahaniaethu. Mae dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn mynd i'r afael â'r camwahaniaethu hwn yn uniongyrchol.
- **Ar hyn o bryd, mae gormod o blant yng Nghymru sydd ddim yn gwybod bod ganddyn nhw hawliau.** Dangosodd arolwg Llywodraeth Cymru 2016 o lefelau ymwybyddiaeth o hawliau plant nad oedd 41% o'r plant a'r bobl ifanc yn yr arolwg yn gwybod bod gan blant hawliau penodol, a bod 77% heb glywed am CCUHP erioed. Mae Dull Gweithredu seiliedig ar

Hawliau Plant yn golygu bod plant a phobl ifanc yn gwybod am eu hawliau.

■ **Er eu bod yn arbenigwyr** ar eu bywydau eu hunain, mae plant yn aml yn cael eu cau allan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac mae hynny'n wir yn eu haddysg a'r tu hwnt i hynny. Mae Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn golygu bod plant yn cael cyfleoedd ystyrlon i ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch eu bywydau, a hefyd i gyfranogi fel dinasyddion moesegol, gwybodus yn eu cymunedau.

Rhaid i ni ymdrechu i sicrhau cyfatebiaeth rhwng egwyddorion ein cyfreithiau a'n polisi â chamau gweithredu ystyrlon sy'n gwella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc. Bydd cyflawni Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o CCUHP ac yn ein helpu i feithrin ymhellach ddiwylliant sy'n annog rhoi sylw i effaith yr hyn sy'n digwydd i blant yn y gymdeithas, gan herio arfer drwg a hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol. Mae gwelliannau ymarferol sy'n arwain at ganlyniadau buddiol yn hanfodol os yw hawliau plant i fod yn wirioneddol ystyrlon.

TROEDNODIADAU

- ¹ Dewch o hyd i'r testunau craidd ar hawliau dynol rhyngwladol [yma](#).
- ² Mae rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn [yma](#).
- ³ Gallwch ddarllen sylwadau'r Pwyllgor ar gynnydd o ran Hawliau Plant yn y Deyrnas Unedig [yma](#).
- ⁴ Gallwch ddarllen Sylwadau Cyffredinol a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor [yma](#).
- ⁵ Nid yw egwyddorion Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant wedi'u bwriadu i'w defnyddio mewn unrhyw drefn benodol. Yn hytrach dylid eu hystyried a'u defnyddio gyda'i gilydd i lywio gwaith yr ysgol. Yn anochel bydd peth gorgyffwrdd. Er enghraifft, mae grymuso plant i wneud penderfyniadau a dewisiadau yn agos iawn at ddarparu cyfleoedd i blant fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, ac ni fydd cyfranogiad yn gwireddu hawliau plant ond os yw'n digwydd ar sail egwyddor peidio â chamwahaniaethu a chydaddoldeb. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion sy'n gorgyffwrdd yn cadarnhau ei gilydd ac yn cyfrannu at ddull gweithredu cyfannol, cydlynus a chynhwysfawr o wireddu hawliau plant.

Comisiynydd Plant Cymru

Tŷ Ystumllwynarth

Ffordd Phoenix

Llansamlet

Abertawe

SA7 9FS

01792 765600

post@complantcymru.org.uk

facebook.com/childcomwales

@complantcymru (Trydar)

YouTube: commissionerwales